



NETWORK

DELIVERED BY



CONNECTOR CANLLAWIAU 2020

CYFLWYNIAD

Ffilm Cymru yw'r asiantaeth ddatblygu ar gyfer byd ffilm Cymru, ac mae'n bartner cyflawni cenedlaethol i RWYDWAITH BFI, sy'n dwyn ynghyd asiantaethau ffilm eraill o bob rhan o Brydain i ddarganfod, datblygu a chyllido awduron, cyfarwyddwyr a chynhyrchwyr newydd ac addawol. Mae ein gweithgarwch ni fel rhan o RWYDWAITH Talent Cymru y BFI yn ymwneud â chynorthwyo gwneuthurwyr ffilm ar y lefel hon a anwyd yng Nghymru neu sy'n seiliedig yng Nghymru.

Mae cronfa Connector wedi'i ddatblygu i gynorthwyo unigolion neu sefydliadau i gynnal hyfforddiant a gweithgarwch rhwydweithio wedi'u targedu ar gyfer doniau creu ffilmiau yng Nghymru.

Dyma rai enghreifftiau o brosiectau blaenorol a gefnogwyd gan Connector:

- Labordy SHIFFT – cyfres o sesiynau datblygu sript i gymheiriaid ac wedi'u harwain gan fentor ar gyfer gwneuthurwyr ffilm sy'n ystyried eu hunain yn fenywod
- Tuag at Ddrafft Cyntaf – cwrs sriptio dwyieithog yng ngogledd Cymru
- Cyfleoedd rhwydweithio i rai sy'n dyheu i fod yn wneuthurwyr ffilm animeiddiedig gyda Gŵyl Animeiddio Caerdydd
- Rhwydweithio, hyfforddiant a chynhyrchu ffilmiau byr ar gyfer gwneuthurwyr ffilm ac actorion niwro-amrywiol gyda Theatr Hijinx a 104 Films

Mae Ffilm Cymru yn ymrwymedig i hybu sector ffilm amrywiol a chynaliadwy sy'n gweithio i bawb ledled Cymru, gan roi lle canolog i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ym mhopeth a wnawn. Hyrwyddwn entrepreneuriaeth a Safon BS8909 sy'n cefnogi diwydiant ffilm sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd.

PWY ALL YMGEISIO?

Cewch wneud cais am gyllid Connector:

- Os ydych yn unigolyn neu sefydliad sydd â hanes llwyddiannus yn y diwydiannau creadigol, yn ddelfrydol yn seiliedig yng Nghymru neu bartneriaeth â sefydliad yng Nghymru;
- Os ydych dros 18 oed a heb fod mewn addysg amser llawn;
- Os mai chi sydd neu fydd yn arwain ar y prosiect a ddisgrifiwch.

Byddwn yn ystyried cynigion gan gwmnïau cyfyngedig neu weithwyr proffesiynol unigol (e.e. unig fasnachwyr / gweithwyr llawrydd sydd â hanes llwyddiannus yn y diwydiannau creadigol).

Mae unigolion neu sefydliadau sydd wedi derbyn cyllid Connector o'r blaen yn gymwys i ymgeisio, cyhyd â'u bod wedi cyflawni eu rhwymedigaethau adrodd a chyflawni ac wedi esbonio sut mae'r prosiect blaenorol wedi dylanwadu ar y strategaeth ar gyfer y prosiect newydd neu barhaus.

Dylai ymgeiswyr ddangos sut byddant yn cael mynediad at eu cyfranogwyr targed yng Nghymru a dylent ddeall y camau ymarferol sydd angen i wneuthurwr ffilm eu cymryd er mwyn datblygu gyrfa gynaliadwy ym myd ffilm.

AM BETH GALLAF YMGEISIO?

CYNNWYS

Dylai holl weithgarwch Connector ganolbwyntio ar gynorthwyo sgriptwyr, cyfarwyddwyr a/neu gynhyrchwyr newydd neu addawol a dylai gynnig cymorth llawn ysbrydoliaeth i gynnydd gyrfa cyfranogwyr.

Rydym yn edrych ar hyn o bryd i gynorthwyo gweithgarwch sy'n canolbwyntio ar y meysydd isod, sydd wedi'u cyfarwyddo gan ein gwaith ar draws y diwydiant yng Nghymru a'r data a gasglwn yn rheolaidd:

- Cymorth i sgriptwyr sy'n gweithio ar lefel ffilm hir, wedi'i dargedu at bontio o ffurfiau celf eraill
- Datblygu cynhyrchwyr ffilm, yn arbennig annog darpar gynhyrchwyr newydd ac unigolion sydd â sgiliau trosglwyddadwy
- Datblygu cyfarwyddwyr ffilm amrywiol newydd gan bontio o ffurfiau celf eraill, neu o rolau eraill ym maes ffilm a theledu
- Datblygu cynhyrchwyr sydd ag arbenigedd mewn marchnata a dosbarthu (e.e. Cynhyrchwyr Effaith neu Allgymorth)
- Prosiectau sy'n meithrin cydweithio rhwng gwneuthurwyr ffilm a ffurfiau celf neu dechnolegau eraill
- Prosiectau sy'n cynnig hyfforddiant mewn sgiliau meddal fel cyflwyno syniadau, cyflwyno a negodi
- Prosiectau sy'n cynnig arweiniad neu gymorth ar gyfer lles doniau newydd ac addawol ym maes ffilm

Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau sy'n canolbwyntio ar fylchau sgiliau eraill, a allai fod yn seiliedig ar ymwybyddiaeth a thystiolaeth yr ymgeisydd ei hun o alw penodol sydd heb ei wasanaethu'n ddigonol yng Nghymru ar hyn o bryd.

Gall sawl ffurf fod i'r gweithgarwch Connector a gynorthwywn. Serch hynny, byddai'n rhaid i bob prosiect fod ag amcanion wedi'u diffinio'n glir a dylai gynnig y cyfle i rwydweithio a rhannu'r hyn a ddysgir gyda chymheiriaid ac elwa o gyngor mentoriaid neu arbenigwyr yn y diwydiant.

Er y byddwn yn achlysurol yn cefnogi digwyddiadau untro a all ddangos effaith sylweddol, rydym yn annog pob ymgeisydd i feddwl am gynaliadwyedd eu cymorth, boed drwy gyfarfodydd llai ffurfiol drwy gydol y flwyddyn, datblygu partneriaethau parhaus, neu bresenoldeb ar-lein wedi'i ddatblygu'n dda sy'n cynnwys adnoddau defnyddiol.

CYFRANOGWYR

Rydym hefyd yn blaenoriaethu ceisiadau sy'n cynorthwyo pobl wedi'u tangynrychioli yn unol â Safonau Amrywiaeth y BIF a'n Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, sy'n cynnwys targedau wedi'u gosod yn erbyn ystadegau'r cyfrifiad ar gyfer Cymru. Eleni, rydym yn arbennig o awyddus i dderbyn ceisiadau sy'n canolbwyntio ar wneuthurwyr ffilm BAME, LHDTCC+, anabl, dan anfantais economaidd-gymdeithasol a/neu sy'n siarad Cymraeg, ac yn seiliedig yng Nghymru.

Anogwn bob ymgeisydd i ddarllen Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Ffilm Cymru i'ch cynorthwyo i gymryd y camau angenrheidiol i ddenu amrywiaeth eang o gyfranogwyr i'ch prosiect, os nad yw'n canolbwyntio'n greiddiol ar faes amrywiaeth penodol.

Dylai'r gweithgarwch anelu i gynorthwyo lleiafswm o 30 o gyfranogwyr, oni bai ei fod yn cynnwys y math o ddatblygu dwys a allai weithio'n well mewn grwpiau bach.

Yn anffodus, ni allwn gyllido'r canlynol o'r gronfa hon:

- Gweithgarwch sy'n ymwneud yn bennaf â chynulleidfaoedd yn hytrach na gwneuthurwyr ffilm;
- Gweithgarwch sy'n ymwneud yn bennaf ag unigolion o dan 18 oed neu mewn addysg amser llawn;
- Gweithgarwch sy'n ymwneud yn bennaf â gwneuthurwyr ffilm o'r tu allan i Gymru.

Os gwelwch nad ydych yn cyrraedd yr holl feini prawf cymhwysedd, cymrwch olwg ar ein cyllid Mynediad Cynulleidfa neu Addysg, i weld a yw'r rhain yn fwy addas at eich anghenion. these are better suited to your needs.

SUT YDW I'N YMGEISIO?

Er mwyn ymgeisio am ein cyllid, bydd angen i chi lawrlwytho'r ffurflen gais o'n gwefan.

Mae'r ffurflen gais yn mynd â chi drwy gyfres o gwestiynau am eich prosiect, a fydd yn caniatáu i ni gael gwell dealltwriaeth o'i ffocws a'i hyfywedd, y canlyniadau a fwriedir, a phrofiad y tîm neu'r unigolyn sydd y tu ôl iddo.

Rydym yn derbyn llawer mwy o geisiadau na'r hyn y gallwn eu cynorthwyo, felly gwnewch yn siŵr eich bod wedi cyfathrebu hyn yn glir yn eich ffurflen gais.

Yn ogystal â'ch ffurflen gais wedi'i llenwi, bydd hefyd angen i chi gyflwyno'r canlynol:

- CVs yr ymgeisydd/ymgeiswyr a'r staff a fwriedir ar gyfer y prosiect
- Bywgraffiadau cwmni y sefydliadau sy'n ymgeisio ynghyd ag unrhyw sefydliadau partner (os yw'n berthnasol).

Ni chaiff eich cais ei ystyried yn gyflawn hyd nes bod yr holl eitemau hyn wedi'u hanfon.

Y ffordd orau i anfon dogfennau ategol yw ar ffurf dolen storio ar-lein (e.e. Dropbox neu Google Drive), a bod hyn wedi'i nodi yn y blwch priodol ar y ffurflen gais. Nid oes rheidrwydd ar Ffilm Cymru i ddarllen nac ystyried dogfennau mewn perthynas â cheisiadau anghyflawn neu anghymwys, nac unrhyw ddogfennau digymell.

MANYLION Y GYLLIDEB

Cadwch y canlynol mewn cof wrth lenwi eich cais:

- Byddwn yn cyllido hyd at 100% o gostau eich prosiect hyd at fwyafswm o £6,000.
- Ni all Ffilm Cymru ddyrannu cyllid yn ôl-weithredol (hynny yw ar gyfer prosiect neu ddiwyddiad sydd eisoes wedi bod).
- Dylai pob eitem fesul llinell fod yn rhesymol. Ni allwn gynorthwyo llety neu deithio dosbarth cyntaf, er enghraifft. Serch hynny, dylech wneud yn siŵr bod holl weithwyr y prosiect yn derbyn cyflog byw o leiaf am eu hamser, oni bai bod sefydliad partner wedi cynnig adnodd staff i chi fel cyfraniad mewn nwyddau.
- Darparwch gymaint o fanylion â phosib ar eich cyllideb. Er ein bod yn deall mai dangosol fydd y gyllideb ar y cam hwn, mae'n bwysig inni wybod eich bod wedi meddwl am hyfywedd eich prosiect.
- Nid oes angen i chi gyflwyno ffigurau yn erbyn pob eitem fesul llinell yn y gyllideb dempled. Caiff y rhain eu darparu fel syniad o'r costau y gallwch wneud cais amdanynt.
- Fel arfer, byddwn yn disgwyl gweld elfennau o gyllid partneriaeth ar ffurf arian parod a/neu gyfraniad mewn nwyddau.

DYDDIAD CAU

Dylech anfon eich cais wedi'i gwblhau drwy e-bost i network@ffilmcymruwales.com erbyn
5pm ar 11 Mai 2020.

MANYLION CYSWLLT

Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu os hoffech drafod unrhyw agwedd ar eich cais, cysylltwch ag:

Gwen Hawkins

Gweithredol Datblygu

02921 679369 / gwenfair@ffilmcymruwales.com

Os hoffech gael gwybod am gynlluniau cyllido Ffilm Cymru, digwyddiadau hyfforddiant a chyfleoedd eraill, [ymunwch â'n rhestr bostio fan hyn](#).

BETH SY'N DIGWYDD AR ÔL I MI ANFON YN FY NGHAIS?

Byddwn yn derbyn e-bost o gadarnhad o fewn un wythnos i'r dyddiad cau. Bydd yr e-bost yn rhoi cyfeirnod i chi a dolen i'n ffurflen monitro amrywiaeth. Bydd yn rhaid i bob aelod o dîm eich prosiect wedyn lenwi'r ffurflen cyn y gall eich cais gael ei asesu. Mae opsiwn 'gwell gen i beidio â dweud' i bob cwestiwn.

Os yw eich cais yn anghyflawn neu'n anghymwys, byddwn yn rhoi gwybod i chi nad yw eich cais wedi mynd ymlaen i'r cam asesu. Os bydd eich cais yn anghyflawn oherwydd gwallau, byddwn yn rhoi amser penodol i chi gywiro unrhyw wallau cyn i'ch cais fynd ymlaen i'r cam asesu. Gallem ofyn am wybodaeth neu ddeunydd pellach gennych.

Os yw eich cais yn gyflawn ac yn gymwys i dderbyn cyllid, yn ôl y meini prawf uchod, bydd yn mynd ymlaen i'r cam asesu.

ASESU

Caiff ceisiadau eu hasesu gan Bennaeth yr Adran, Rheolwr RHWYDWAITH Talent Cymru y BFI, a Chydlynnydd RHWYDWAITH Talent Cymru y BFI. Gallai aseswyr allanol gael eu defnyddio yn dibynnu ar natur a nifer y ceisiadau a dderbynnir.

Caiff ceisiadau eu hasesu'n erbyn y Meini Prawf Asesu canlynol:

- Pa mor glir a chyflawnadwy yw'r canlyniadau a fwriedir ar gyfer y prosiect
- Cryfderau'r tîm cyflawni arfaethedig mewn perthynas â chynllun y prosiect
- Dichonoldeb y prosiect, yn benodol os bydd angen cyllid ychwanegol
- Amrywiaeth a chynhwysiant y prosiect arfaethedig a'i gyfranogwyr yn unol â Chynllun Gweithredu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Ffilm Cymru
- Hyfywedd y prosiect i dderbyn cymorth y Loteri Genedlaethol (gweler telerau'r Loteri sydd wedi'u hatodi)
- Cydbwysedd cyffredinol ein buddsoddiadau

Bydd y modd y mae'r ymgeisydd wedi rheoli unrhyw gyllid blaenorol gan Ffilm Cymru hefyd yn cael ei ystyried yn ystod y broses asesu, lle y bo'n berthnasol.

Caiff ymgeiswyr eu hysbysu o benderfyniad o fewn 6 wythnos i ddyddiad cau'r cais.

ADBORTH

Os yw eich cais yn aflwyddiannus, gall Ffilm Cymru ddarparu adborth byr ar gais. Nid oes rheidrwydd ar yr ymgeisydd i weithredu'r adborth, ac nid yw gweithredu'r adborth hwn yn sicrwydd o dderbyn cyllid yn y dyfodol.

BETH SY'N DIGWYDD OS OES CYLLID YN CAEL EI DDYFARNU I MI?

Os yw eich cais yn llwyddiannus, yn gyntaf byddwch yn derbyn llythyr yn cynnig cyllid yn ffurfiol. Mae Ffilm Cymru yn cadw'r hawl i gynnig llai i chi na'r swm y gofynnwyd amdano neu addasu dyraniad ein cyllid yn ôl eitemau llinell mewn ymgynghoriad â chi.

Gall Ffilm Cymru ddarparu cyflwyniadau a chyngor ynghyd â chymorth ariannol. Fel dderbynnnydd cyllid Connector, cewch eich gwahodd i hanner diwrnod o sesiwn gynefino o fewn 2 wythnos i gael eich hysbysu o'r dyfarniad. Yn y sesiwn hon, byddwn yn trafod ein meysydd cyllido a'n gweithgarwch presennol, yn rhannu canllawiau brandio Connector, ac yn cynnig argymhellion neu gyflwyniadau a allai fod o gymorth i'ch gweithgarwch. Byddwn yn gweithio gyda chi i nodi'r amserlen orau i'r prosiect, yn unol ag unrhyw weithgarwch arall Connector / Ffilm Cymru yn ystod y flwyddyn.

Rydym felly yn cynghori nad ydych yn llunio amserlen derfynol i'ch prosiect nac unrhyw ymrwymadau eraill hyd nes i chi fod wedi bod i'r cyfarfod hwn.

LLYTHYR O GYNNIG

Caiff eich dyfarniad ei gynnig mewn rhandaliadau wedi'u gosod yn erbyn cychwyn a chyflawni amcanion penodol.

Bydd eich llythyr o gynnig yn rhoi manylion y rhandaliadau hyn ynghyd ag amserlen i gyflawni yn eu herbyn. Eich cyfrifoldeb chi yw gwneud yn siŵr eich bod yn cyflawni'r dyddiadau hyn.

Fel arfer, bydd eich dyfarniad yn cael ei ailgylchu ar ôl chwe mis os nad ydych wedi dechrau tynnu i lawr yn ystod y cyfnod hwnnw.

CYTUNDEB CYLLIDO

Wedi i'ch llythyr cynnig gael ei gyflawni'n llwyr, bydd gofyn i chi gychwyn ar gytundeb ar ffurf hir gyda Ffilm Cymru sy'n esbonio telerau ac amodau llawn ein cyllid Connector. Bydd yr amodau hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

- Darparu Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu eich Cwmni, os yw hynny'n berthnasol;
- Darparu bil cyfleustodau a phasbort yn achos unrhyw unigolyn sy'n derbyn cyllid yn uniongyrchol gan Ffilm Cymru er mwyn cyflawni gwiriad hawl i weithio sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith;
- Darparu manylion cyfrif banc eich cwmni neu yn enw'r prosiect, yn hytrach na chyfrif banc personol;
- Darparu unrhyw ddogfennau yswiriant angenrheidiol sy'n ofynnol i gyflawni'r prosiect;
- Cadarnhad ysgrifenedig o unrhyw gyllid partneriaeth neu gyfraniad mewn nwyddau (os yw hynny'n berthnasol);
- Cyfeiriad priodol at RWYDWAITH Talent Cymru y BFI gan gynnwys logos Ffilm Cymru a'r Loteri Genedlaethol;
- Cymeradwyaeth Ffilm Cymru i unrhyw newidiadau i gynllun y prosiect ac unrhyw ddeunyddiau cyhoeddusrwydd;
- Casglu data amrywiaeth cyfranogwyr a'u cyflenwi yn y templed a ddarperir gan Ffilm Cymru;
- Casglu data 'meincnodi' ar lefel profiad eich cyfranogwyr a'u lefel o ddealltwriaeth o'r meysydd yr ewch i'r afael â nhw ar ddechrau'r prosiect, i'w mesur yn erbyn data terfynol ac adborth y cyfranogwyr ar ddiwedd y prosiect, fel rhan o'ch adroddiad terfynol ar lwyddiant y prosiect yn erbyn ei ganlyniadau;
- Cyflenwi anfonebau sy'n rhoi tystiolaeth o'r gwariant yn unol â'r contract;
- Cyflenwi o leiaf 3 llun cydraniad uchel (high-res) o weithgarwch neu ddiwyddiad eich prosiect Connector;
- Darpariaethau Terfynu safonol.

AMODAU CYFFREDINOL CYLLID LOTERI FFILM CYMRU

1. Gall y wybodaeth yn y canllawiau hyn newid. Gall y gyfraith a rheoliadau'r Llywodraeth ynglŷn â rhannu arian y Loteri Genedlaethol newid hefyd. Mae Ffilm Cymru felly yn cadw'r hawl i adolygu'r cynllun cyllido hwn a/neu newid ei bolisiau, ei weithdrefnau a'r meini prawf asesu.
2. Nid yw'r ffurflen gais o anghenraid yn ymdrin â'r holl wybodaeth y mae Ffilm Cymru yn ei defnyddio i benderfynu pa geisiadau i'w cyllido. Gall Ffilm Cymru ofyn am ragor o wybodaeth gan ymgeiswyr.
3. Gwneir pob cais ar risg yr ymgeisydd ei hun. Ni fydd Ffilm Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw golledion, niwed neu gostau a all godi'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o:
 - y broses ymgeisio;
 - penderfyniad Ffilm Cymru i roi nawdd neu beidio a rhoi nawdd i ymgeisydd; neu
 - ymdrin â'r cais.
4. Gwiriwch eich ffurflen gais yn ofalus. Ni fydd Ffilm Cymru yn prosesu ceisiadau anghyflawn na cheisiadau nad ydynt yn cydymffurfio â'r canllawiau hyn.
5. Mae penderfyniadau Ffilm Cymru ar geisiadau yn derfynol.
6. Ni fydd Ffilm Cymru yn rhyddhau unrhyw arian nes iddynt dderbyn copi llawn o'r cytundeb cyllido ar ffurf hir, ac unrhyw amodau sy'n gysail i'r cytundeb sydd wedi'u bodloni neu eu hepgor gan Ffilm Cymru.
7. Bydd Ffilm Cymru yn cyhoeddi'r wybodaeth ynglŷn â nifer y ceisiadau a dderbyniwyd, a'r dyfarniadau a wnaethpwyd. Bydd y wybodaeth hon yn cynnwys enw'r ymgeisydd llwyddiannus, swm y dyfarniad, enw'r prosiect a manylion y prosiect.
8. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn rhoi hawl i'r cyhoedd ofyn am wybodaeth benodol a gadwyd mewn perthynas â'r ceisiadau a wneir i raglenni neu gynlluniau Loteri Genedlaethol Ffilm Cymru. Felly, os ydych yn dewis gwneud cais i Ffilm Cymru dylech fod yn ymwybodol y gellir datgelu'r wybodaeth y byddwch yn ei gyrru atom, naill ai'n rhannol neu'n gyfan, yn unol â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.
9. Bydd yr holl wybodaeth a ddarperir i Ffilm Cymru yn cael ei thrin yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data a'r holl ddarpariaethau cyfreithiol cysylltiedig sy'n ymwneud â diogelu data. Defnyddir y wybodaeth a ddarperir gennych i asesu eich prosiect, i gyflawni cytundeb cyllido gyda Ffilm Cymru, i adrodd i'n rhanddeiliaid a/neu i gydymffurfio â chyfraith ehangach. Mae gennych hawl i ofyn am gopi o'r wybodaeth a gedwir gan Ffilm Cymru yn y cofnodion. Mae gennych hefyd hawl i ofyn i Ffilm Cymru gywiro unrhyw beth sy'n anghywir yn eich gwybodaeth. Gallwch adolygu ein polisi Preifatrwydd fan hyn.
10. Bydd yr holl wybodaeth bersonol a sensitif a ddarperir i Ffilm Cymru, ffurflenni monitro amrywiaeth er enghraifft, yn cael eu cadw mewn fformat anhysbys ar gyfrifiadur am ddwy flynedd, a gellir ei defnyddio at ddibenion ystadegol wedi hynny.
11. Mae gan Ffilm Cymru'r hawl i wrthod neu adennill unrhyw arian os y llenwyd y cais yn anonest, neu gan ddefnyddio gwybodaeth sy'n anghywir neu'n gamarweiniol am y sefydliad neu'r prosiect, boed yn fwriadol neu'n ddamweiniol; a/neu os yw'r sawl sy'n derbyn arian gennym yn gweithredu'n anonest neu'n esgeulus gan roi'r prosiect dan anfantais. Bydd Ffilm Cymru yn dilyn achosion o amheuaeth o dwyll ac yn trosglwyddo gwybodaeth i'r heddlu.
12. Mae'n ofynnol gan Ffilm Cymru bod unrhyw fesurau a gymerir gan ymgeiswyr i fynd i'r afael â thangynrychiolaeth yn cydymffurfio'n llwyr â Deddf Cydraddoldeb 2010.
13. Ni fydd apelïadau ffurfiol yn erbyn y penderfyniad terfynol yn cael eu hystyried oni bai bod gan yr ymgeisydd achos da i gredu na lynwyd at y gweithdrefnau cywir ar gyfer prosesu'r cais, neu iddynt gael eu gweithredu mewn modd a oedd yn anfantaisiol i ganlyniad y cais. Mae copi o'n Gweithdrefn Adborth a Chwynion i'w gweld ar ein gwefan.
14. Rhaid i unrhyw wrthdaro o ran buddiannau gael eu datgan gan ymgeiswyr yn eu cais – mae'n rhaid hysbysu Ffilm Cymru, er enghraifft, os oes aelod o staff yn ymwneud â chwmni neu un o'i brosiectau.
15. Mae Ffilm Cymru yn gofyn i bob un o'i bartneriaid a phawb sy'n derbyn cyllid ganddynt amlygu cyfraniad y Loteri Genedlaethol drwy hyrwyddo ac arddangos logo'r Loteri Genedlaethol, ynghyd â logo Ffilm Cymru, a thrwy gydnyddiaeth ysgrifenedig a llafar a gytunwyd arno.

ATODIAD 1

Mae Deddf y Loteri Genedlaethol 1993 (Diwygiwyd ym 1998) yn amlinellu'r meini prawf allweddol i'w hystyried wrth drafod ceisiadau am gyllid. Mae Ffilm Cymru Wales yn dehongli'r rhain fel a ganlyn:

ANSAWDD ARTISTIG

Mae Ffilm Cymru yn ceisio cefnogi creu ffilmiau gwreiddiol a dramatig.

BUDD CYHOEDDUS

Gellir cyflawni hyn drwy wneud y deunydd sinematig a ddarperir fod yn fwy amrywiol; rhoi proffil i dalent newydd, neu wella cynrychiolaeth cymunedau nad ydynt wedi'u cynrychioli'n ddigonol yn y gorffennol, er enghraifft.

DATBLYGIADAU NEWYDD

Ni chaniateir amnewid arian y Loteri. Hynny yw, ni ddylai gymryd lle ffynonellau ariannol eraill sydd ar gael ar gyfer unrhyw brosiect penodol. Yn hytrach, gellir ei ddefnyddio i ddenu buddsoddiad pellach i brosiectau. Gellir defnyddio ein harian mewn partneriaeth â chyllidwyr Loteri eraill, yn amodol ar gydymffurfio â chap de minimis Cymorth Gwladwriaethol.

HYFYWEDD ARIANNOL

Byddwn yn ystyried hyfywedd ariannol y prosiect a chydawnsedd y gwahanol elfennau ariannol â thelerau nawdd y Loteri. Bydd angen i'r ceisiadau feddu ar gyllidebau sy'n addas ar gyfer cynulleidfa darged y prosiect, a'r farchnad derfynol.

CYLLID PARTNERIAETH

Bydd angen i'r ymgeiswyr ddangos cadarnhad ysgrifenedig o gyllid partneriaeth a manylion y telerau ac amodau. Nid yw'n debygol y bydd cyllid cynhyrchu yn cael ei gynnig os nad oes elfen o gyllid partneriaeth eisoes yn ei le.

GALW AMLWG

Mae Ffilm Cymru yn ceisio cefnogi prosiectau ffilm sy'n dangos eu bod yn debygol o gael eu dosbarthu. Nid yw prosiectau sy'n annhebygol o gael eu dosbarthu yn debygol o fod o fudd i'r cyhoedd, ac felly ni fyddant yn cyrraedd meini prawf cyllid y Loteri. Mae Ffilm Cymru yn ceisio cefnogi amrywiaeth eang o ffilmiau o ran genres a chyllidebau, ond ym mhob achos dylai'r prosiectau feddu ar gyllidebau addas i adlewyrchu'r potensial tebygol o ran cynulleidfa. Bydd disgwyl i ymgeiswyr gynnwys ffigurau gwerthu, wedi'u cyflenwi gan asiantaeth werthu brofiadol a/neu dystiolaeth o ddiddordeb gan Ddosbarthwyr Prydeinig.

RHEOLAETH EFFEITHIOL

Mae Ffilm Cymru yn gyfrifol am wariant arian cyhoeddus, ac felly rhaid i'r corff ei fodloni ei hun bod yr ymgeisydd yn debygol o drosglwyddo'r gwaith yn unol â'r gyllideb a'r amserlen, gan ddefnyddio'r arian ar gyfer y diben a fwriadwyd.

ffilm CYMRU WALES



BFI NETWORK

UNED 6
TRAMSHED TECH
STRYD PENDYRIS
CAERDYDD CF11 6BH

+44(0)2921 679369
enquiries@ffilmcymruwales.com
www.ffilmcymruwales.com



**ARIENNIR GAN
Y LOTERI
LOTTERY FUNDED**

